

# Y patrwm Beiblaidd

*“A minnau, os caff fy nyrchafu oddi ar y ddaear, fe dynnaf bawb ataf fy hun.”  
(adn. 32)*

## Beth am ddarllen Ioan 12:20–36 ac yna myfyrio

Nid yw'r Testament Newydd yn cynnig cynllun ar gyfer adeilad eglwysig yn unman. Ond, mae yn cynnig cynllun ar gyfer y patrwm sydd i'w ddarganfod o fewn yr Eglwys a'i gweinidogaeth gerbron Duw, patrwm ar gyfer y rhai sydd yn perthyn iddi, a phatrwm ar gyfer ei gwaith yn y byd. Fe welir y patrwm yma ar ei amlycaf yn yr eglwys yn Antiochia. Rwy'n dweud 'ar ei amlycaf' oherwydd, er bod yna eglwysi eraill yn bodoli, yma yn Antiochia y galwyd y disgyblion yn Gristionogion am y tro cyntaf. Roedd eu bywydau mor debyg i fywyd yr Arglwydd Iesu fel bod pobl wedi eu galw yn Gristionogion. Dyma'r bobl sydd yn gosod y cywair ar gyfer yr Eglwys, gan wneud hynny drwy bwysleisio Iesu Grist i'r fath raddau fel mai 'Cristionogion' oedd yr unig air a ellid ei ddefnyddio i'w disgrifio.

Mae yna emyn sydd wedi bod yn mynd trwy fy meddwl wrth imi ysgrifennu'r sylwadau hyn. Mae'n siŵr fod rhai ohonoch yn gyfarwydd â'r geiriau:

*Dyrchafer enw Iesu cu  
gan seintiau is y nen,  
a holl aneirif luoedd nef,  
coronwch ef yn ben.*

Mae symud y pwyslais oddi ar yr Arglwydd Iesu yn arwain at ddirywiad a dadrithiad. Mae ailddarganfod Iesu yn arwain at ddiwygiad. Mae angen i'r eglwysi hynny sydd am ailgychwyn wneud hynny yn yr un man ag y cychwynnodd yr eglwys yn Antiochia— gyda'r newyddion da am Iesu Grist.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Num. 21:4–9; Ioan 3:1–17; 8:28

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fydddech yn cymharu Iesu â'r sarff bres?
2. Sut gallwn ddyrchafu Iesu?

## Gweddi

Ein Tad grasol a chariadlon, maddau i ni fod cymaint o amser yr Eglwys yn cael ei dreulio ar bethau ymylol, yn hytrach nag ar y person sydd i fod yn y canol. Cynorthwya ni i roi y pwyslais ar y newyddion da am Iesu Grist. Yn ei enw bendigedig. Amen.